GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

I'W RYDDHAU AR UNWAITH/FOR IMMEDIATE RELEASE
Please scroll down for English

23 Awst 2010

Croeso mawr i'r monitor newydd yn yr adran gardiaidd

Mae cwpwl caredig o'r Waun wedi defnyddio eu talent gerddorol i godi arian ar gyfer Gwasanaeth Cardioleg Ysbyty Maelor Wrecsam.

Mae Jeff a Joan Cliffson yn aelodau o Glwb Canu Gwlad Lazyacre yn yr Amwythig. Fe drefnon nhw sioe yng Ngwesty Lord Hill yn yr Amwythig i godi arian ar gyfer yr Ysbyty lle roedd Jeff yn un o'r cleifion ar ôl cael trawiad ar y galon.

Yn ogystal â pherfformiad gan Jeff a'i bartner canu John Nicholas, yn y sioe roedd tri artist o ogledd Lloegr, ynghyd â chanwr lleol Alan Williams, bob un o'r rhain yn rhoi eu gwasanaeth am ddim. Cawsant gymorth i roi'r sioe at ei gilydd gan yr hyrwyddwr cerdd Tony Best a'i wraig Jean sy'n rhedeg y Clwb Lazyacre, a chan Pat, aelod o'r clwb, a helpodd gyda'r gwaith o godi arian a threfnu raffl.

Drwy werthu tocynnau, cynnal raffl ar y noson, rhoddion a noson bingo codwyd dros £1,500.

Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i brynu monitor Novacor ychwanegol ar gyfer yr Ysbyty. Mae'r Novacor yn ddyfais symudol, sy'n cael ei defnyddio i gofnodi rhythm calon y claf. Mae hyn yn galluogi'r tîm Cardioleg asesu rhythm calon y claf a sicrhau bod pob claf yn cael y driniaeth gywir ar gyfer ei gyflwr cardiaidd.

Dywedodd y Nyrs Adsefydlu Cardiaidd Bernice Matthews, sydd wedi edrych ar ôl Jeff yn ystod y cyfnod adsefydlu:

“Mae Jeff a Joan yn gwpwl hyfryd, roeddwn yn falch iawn o gael gwahoddiad i’r sioe.

“Hoffwn ddiolch o waelod calon iddyn nhw a’u ffrindiau am drefnu’r sioe, yr holl gerddorion a deithiodd ac a berfformiodd yn y cyngerdd a phawb a ddaeth i’r noson am eu cefnogaeth hael.

“ Mae’r monitor ychwanegol hwn yn golygu y bydd modd archwilio mwy o gleifion, llai o amser aros i’r rhai sydd angen cael yr archwiliad ac yn bwysig, bod cleifion yn cael eu gwerthuso â’u trin wedi hyn.”

DIWEDD

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Mr Andy Scotson	**01978 725130**
Mr Trystan Pritchard	**01248 384938**
Mrs Dawn Davies	**01745 534495**

23 August 2010

New monitor is music to cardiac department's ears

A big hearted couple from Chirk have used their musical talents to raise funds for Wrexham Maelor Hospital's Cardiac Cardiology Service.

Jeff and Joan Cliffson are members of the Lazyacre Country Music Club in Shrewsbury. They arranged a benefit show at the Lord Hill Hotel in Shrewsbury to raise funds for the Hospital where Jeff was a patient following a heart attack.

As well as a performance from Jeff and his singing partner John Nicholas, the show featured three artistes from across north England, along with local singer Alan Williams, all of who gave their services completely free of charge. They were helped to pull the show together by music promoter Tony Best and his wife Jean who run the Lazyacre Club, and by club member Pat who helped with the fundraising work and raffle.

Ticket sales, a raffle on the night, donations and a subsequent bingo night resulted in over £1,500 being raised.

This will be used to purchase an additional Novacor monitor for the Hospital. The Novacor is a portable device, which is used to record a patient's heart rhythm. This allows the Cardiology team to assess a patient's heart rhythm and ensures that each patient gets the right treatment for their cardiac condition.

Cardiac Rehabilitation Nurse Bernice Matthews, who has looked after Jeff during the rehabilitation stage of his recovery, said:

"Jeff and Joan are a wonderful couple, I was delighted to be invited to attend the show.

“I want to say a huge thank you to them and their friends for organising the show, to all the musicians who gave their time to travel and perform at the concert and to everyone who came along on the night and gave such generous support.

“Having this extra monitor will allow the service to investigate more patients, less waiting for those needing to have the investigation and importantly that patients are then evaluated and treated.”

ENDS

For further information please contact:

Mr Andy Scotson	**01978 725130**
Mr Trystan Pritchard	**01248 384938**
Mrs Dawn Davies	**01745 534495**